Drwy e-bost

Jack Sargeant AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

28 Ionawr 2022

Annwyl Mr Sargeant,

**Deiseb P-06-1228 Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021**

Diolch am eich llythyr ar ran y pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb uchod, yn gofyn am ganfyddiadau ein harolwg ar osod graddau. Yn dilyn haf 2021, rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am ganfyddiadau athrawon o'r broses o bennu graddau gan y ganolfan. Mae ein harolwg a'n cyfweliadau wedi canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth ddyfnach o sut y defnyddiwyd fframwaith pennu graddau gan y ganolfan, profiadau athrawon o'r broses a'u barn arni (gan gynnwys y gallu i reoli'r gwaith), hyder yn y canlyniadau a'r safbwyntiau ar sut y gellid gwella'r dull gweithredu. Mae'r cyfweliadau yn dilyn yr arolwg bellach wedi dod i ben ac rydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad ymchwil ym mis Mai.

Yn ystod y prosiect ymchwil hwn ac yn ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cael adborth ar lwyth gwaith cynyddol ac wedi clywed pryderon tebyg i'r rhai a nodir yn y ddeiseb. Clywsom bryderon hefyd fod rhai athrawon, cyn covid, wedi cael cyfle i ymgymryd â gwaith cyflogedig i'r corff dyfarnu, er enghraifft fel arholwyr, a'u bod wedi colli incwm y byddent wedi'i ddisgwyl fel arall o'r gwaith hwn. Mae'r papur briffio a gawsom gan ein cyflenwr ymchwil ar ganfyddiadau interim o'r ymchwil hefyd yn awgrymu, er bod yr amser a neilltuwyd gan athrawon i raddio yn 2021 yn sylweddol, ei fod hefyd yn amrywio o ran statws y staff ac yn debygol o fod yn unol â'r sut y trefnodd y ganolfan ei dull o asesu a graddio ac i ba raddau y cafodd elfennau eraill o'r llwyth gwaith eu dibrisio.

Yn yr Alban rydym wedi gweld yr heriau o weinyddu tâl 'bonws' wrth i athrawon cymwys yno dderbyn taliad untro o £400 am y gwaith ychwanegol.[1] Mae hwn yn fater cymhleth, a byddem yn awgrymu bod eraill mewn sefyllfa well i roi sylwadau ar lwyth gwaith athrawon a chyfreithlondeb unrhyw daliad o'r fath.

---

[1] https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-guidance-for-employers-on-one-off-gbp400-payment-for-teachers/

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Byddwn yn sicrhau y byddwn yn rhannu ein hadroddiad ymchwil gyda'r pwyllgor pan fyddwn yn ei gyhoeddi.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr